# DATGANIAD NEWYDDION

Cyhoeddwyd gan y
Comisiwn Ffiniau i Gymru
Tŷ Caradog
1-6 Plas Sant Andreas
Caerdydd
CF10 3BE

Ffôn 02920 395031

Ffacs 02920 395250

Dyddiad 31 Mawrth 2011

**ARGYMHELLION TERFYNOL O RAN ARDALOEDD A GYNHWYSIR YN ETHOLAETHAU CARDIFF SOUTH AND PENARTH A VALE OF GLAMORGAN**

**Nid yw'r Comisiwn yn bwriadu gwneud unrhyw newid i'r argymhellion dros dro ar gyfer etholaethau Cardiff South and Penarth a Vale of Glamorgan.**

1. Cyhoeddom ein hargymhellion dros dro ar 4 Ionawr 2011 a chyhoeddom hysbysiad o'r rhain mewn papurau newydd lleol, yn Gymraeg ac yn Saesneg, sy'n cylchredeg yn yr etholaethau yr effeithir arnynt, i wahodd sylwadau oddi mewn i'r cyfnod statudol o un fis calendr. Sicrhawyd bod copïau o'r argymhellion hyn, ynghyd â mapiau eglurhaol, ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd mewn mannau cyfleus yr etholaethau ac ar wefan y Comisiwn.

**Cynrychiolaethau a dderbyniwyd**

2. Ni chafwyd unrhyw gynrychiolaethau ynglŷn â'n hargymhellion dros dro cyn pen y cyfnod statudol o fis.

3. Nododd y Comisiwn, am nad oedd wedi cael unrhyw sylwadau o'r math a grybwyllir yn adran 6 (2) Deddf Etholaethau Seneddol 1986, nad oedd unrhyw ofyniad statudol i gynnal ymchwiliad lleol. Ym mhob achos, penderfynodd y Comisiwn hefyd na fyddai'n arfer ei ddisgresiwn o dan adran 6 (1) i gynnal ymchwiliad.

**Argymhellion terfynol**

4. Ar ôl ystyried yn ofalus yr holl sylwadau a gafwyd mewn ymateb i'w argymhellion dros dro, roedd y Comisiwn yn fodlon mai'r argymhellion hynny oedd y ffordd orau o roi'r Rheolau ar waith. Yn unol â hynny, mae'r Comisiwn wedi cadarnhau ei argymhellion dros dro, h.y.:

   i. bod y ffin rhwng Cardiff South and Penarth Borough Constituency a Vale of Glamorgan County Constituency i'w newid i gydymffurfio â ffin llywodraeth leol ym Mwrdeistref Sirol Bro Morgannwg fel y'i newidiwyd gan Orchymyn Bro Morgannwg (Cymunedau) 2010.

5. Mae Argymhellion Terfynol y Comisiwn, a gynhwysir yn ei adroddiad sydd i'w gyflwyno i'r Ysgrifennydd Gwladol, ar gyfer dwy etholaeth, fel a ganlyn (dangosir etholaethau 2010 mewn cromfachau):

**CARDIFF SOUTH AND PENARTH BOROUGH CONSTITUENCY (75,898)** adrannau etholiadol **Sir Caerdydd**: Butetown, Grangetown, Llanrhymni, Tredelerch, Y Sblot a Trowbridge ac adrannau etholiadol **Sir Bro Morgannwg**: Cornerswell, Llandochau, Plymouth, St. Augustine's, Stanwell a Y Sili.

**VALE OF GLAMORGAN COUNTY CONSTITUENCY (71,550)** adrannau etholiadol **Sir Bro Morgannwg**: Baruc, Buttrills, Cadog, Castleland, Y Cwrt, Y Bont-faen, Dinas Powys, Dyfan, Gibbonsdown, Illtyd, Llandw/Ewenni, Llanilltud Fawr, Llanbedr-y-fro, Y Rhws, Sain Tathan, Saint-y-Brid a Gwenfo.

**Cynrychiolaethau**

6. Yn unol ag adran 5 Deddf 1986, nid oes gan y Comisiwn hawl i ystyried unrhyw gynrychiolaethau pellach o ran yr argymhellion hyn.

**Rhoi'r argymhellion ar waith**

7. Bydd y Comisiwn yn cyflwyno adroddiad i'r Ysgrifennydd Gwladol a bydd gan hwnnw ddyletswydd statudol i gyflwyno adroddiad y Comisiwn gerbron y Senedd ynghyd â Gorchymyn drafft yn y Cyfrin Gyngor a fydd yn rhoi argymhellion y Comisiwn ar waith gydag addasiadau neu heb addasiadau. Os cynigir addasiadau, rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol hefyd gyflwyno datganiad o resymau dros yr addasiadau. Cyflwynir y Gorchymyn drafft yn y Cyfrin Gyngor gerbron ddau Dŷ'r Senedd i'w gymeradwyo ac, ar ôl ei sicrhau gan Ei Mawrhydi yn y Cyngor, ni ellir codi amheuaeth yn ei gylch mewn unrhyw achos cyfreithiol. Daw'r etholaethau newydd i rym yn ystod yr etholiad cyffredinol nesaf ar ôl llunio'r Gorchymyn drafft yn y Cyfrin Gyngor.

**Ymholiadau**

8. I gael mwy o wybodaeth, cysylltwch â: Y Comisiwn Ffiniau i Gymru, Tŷ Caradog, 1 – 6 Plas Sant Andreas, Caerdydd CF10 3BE.

Ffôn: 029 2039 5031
Ffacs: 029 2039 5250
E-bost: comffin.cymru@cymru.gsi.gov.uk
Gwefan: www.comffin.cymru.gov.uk